HYSBYSIAD STATUDOL

Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gynradd yn ardal Saltney, Sir y Fflint

CYNGOR SIR Y FFLINT

Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN

Yn unol ag Adrannau 41 a 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026), mae Cyngor Sir y Fflint, sef yr Awdurdod Lleol, ar ôl ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig ad-drefnu darpariaeth addysg gynradd yn ardal Saltney yn Sir y Fflint drwy roi'r mesurau canlynol ar waith:

1. Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac Ysgol Gynradd newydd arfaethedig Saltney

i. Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry, Saltney Ferry Road, Saltney Ferry, Sir y Fflint CH4 8TF, **o 31 Awst 2027**.

ii. Cau Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, Boundary Lane, Saltney, Sir y Fflint CH4 8NT, **o 31 Awst 2027**.

iii. Mae'r ddwy ysgol bresennol yn cael eu cynnal gan Gyngor Sir y Fflint ar hyn o bryd, ac nid oes ganddynt unrhyw gymeriad crefyddol dynodedig.

iv. Sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg newydd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Ysgol Gynradd newydd Saltney") ar **1 Medi 2027** i'w chynnal gan Gyngor Sir y Fflint. Bydd yn gweithredu ar draws safleoedd presennol Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Bydd yr ysgol newydd yn darparu ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 ac 11 oed.

v. Bwriedir adeiladu adeilad ysgol newydd wedi hynny ar dir yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood (map wedi'i gynnwys isod). Disgwylir i'r cyfleusterau newydd gael eu cwblhau erbyn 1 Medi 2030, ac ar yr adeg honno bydd yr ysgol yn trosglwyddo i'r adeilad newydd.

vi. Nifer y derbyniadau ar gyfer y Grŵp Oedran Derbyn yn yr ysgol newydd yn y flwyddyn ysgol gyntaf y gweithredir y cynigion fydd 45.

vii. Cyfanswm capasiti'r ysgol newydd fydd 315 o ddisgyblion llawn amser, ynghyd â 30 o leoedd meithrin llawn amser.

viii. Cyngor Sir y Fflint fydd yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol newydd a bydd trefniadau derbyn yn cael eu trin yn unol â Pholisi Derbyn Cyngor Sir y Fflint. Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dewis ar sail dawn na system bandio disgyblion.

ix. Bydd Cludiant o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir y Fflint. Gellir gweld y manylion yn:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport-Application.aspx

2. Ymgynghoriad

Cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn ar gael yn:

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Proposal-To-Reorganise-Saltney-Ferry-C.P-And-Saltney-Wood-Memorial-C.P.aspx

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymuned wedi'u cynnal yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Mae copïau ar gael yn yr un ddolen uchod.

3. Cludiant a Threfniadau Amgen

Bydd pob disgybl sy'n mynd i Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood pan fyddan nhw'n cau yn cael cynnig lle yn Ysgol Gynradd newydd Saltney.

Bydd yr ysgol newydd hon yn gweithredu ar draws y ddau safle presennol i ddechrau hyd nes y bwriedir i'r adeilad newydd gael ei gwblhau ym mis Medi 2030.

Bydd Cludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau ar gyfer disgyblion cymwys yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Sir y Fflint.

4. Gweithredu a Gwrthwynebiadau


i. Cynigir y bydd Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu'r cynnig ar 1 Medi 2027.

ii. O fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn **01 Rhagfyr 2026** gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

iii. Dylid anfon gwrthwynebiadau at Gyngor Sir y Fflint, naill ai drwy'r post neu drwy e-bost, gan ddefnyddio'r cyfeiriadau isod:

Post: Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

E-bost: saltneyconsultations@flintshire.gov.uk

Llofnod: 

Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint

Dyddiedig: **03 Tachwedd 2026**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn ffurfio rhan o'r Hysbysiad ond fe'i cynigir fel esboniad)

Cefndir a Chynnig

Mae Cyngor Sir y Fflint, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Lleol, yn cynnig ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae'r cynnig yn cynnwys cau'r ddwy ysgol bresennol a sefydlu Ysgol Gynradd Gymunedol Cyfrwng Saesneg newydd, wedi'i chyfuno, ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed.

Gweithredu

Bydd y cynnig yn dod i rym ym mis Medi 2027, gyda'r ysgol newydd yn gweithredu ar draws dau safle'r ysgolion presennol i ddechrau. Bydd cyfleuster newydd pwrpasol yn cael ei adeiladu ar dir ar safle Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood, sydd i fod i agor ym mis Medi 2030.

Rhesymeg

Cynigir yr ad-drefniant hwn mewn ymateb i'r lleoedd gwag sylweddol presennol a disgwyliedig yn yr ysgolion presennol, yn ogystal â phroblemau o ran cyflwr ac addasrwydd sy'n effeithio ar y ddau safle. Bydd sefydlu un ysgol fodern yn gwella ansawdd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd addysg gynradd yn ardal Saltney.

Buddion Addysgol a Chymunedol

Bydd yr ysgol newydd yn gyfleuster o'r radd flaenaf, carbon niwtral, a chost-effeithiol, wedi'i gynllunio i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys, gan ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu ac adnoddau gwell i ddisgyblion a staff.

Cludiant a Derbyniadau

Bydd derbyniadau a chludiant o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gael eu gweinyddu yn unol â pholisïau cyfredol Cyngor Sir y Fflint.

Rhagor o Wybodaeth

Gellir cael mwy o wybodaeth am y cynigion hyn gan:

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

Rhif ffôn: 01352 704018 / 704014

E-bost: saltneyconsultations@flintshire.gov.uk

Safle Newydd Arfaethedig

